

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Aroma Holistic Health and
Beauty, Caerdydd**

1 Tachwedd 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd profiad y claf	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	13
6.	Y Camau Nesaf.....	15
	Atodiad A.....	16

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif ddiben AGIC yw:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle y bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad drwy gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

² Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae Aroma Holistic Health and Beauty wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol oherwydd ei fod yn darparu triniaethau Technoleg Golau Pwls Dwys Dosbarth 3B/4 yn 1A Fields Park Road, Caerdydd, CF11 9JP. Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf yn 2014.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y tîm staff yn cynnwys y rheolwr cofrestredig a thri gweithredwr laser. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 16 mlwydd oed:

System golau pwls dwys E-pulse (Energist) ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew
- Adfywio'r croen
- Triniaeth acne weithredol
- Creithiau acne.

4. Crynodeb

Gwnaethom ystyried sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol o ran y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.

Canfuom fod angen i'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen diweddarau rhai polisïau a gweithdrefnau.
- Roedd gwelliannau i'r trefniadau diogelwch tân yn angenrheidiol.

Nodir manylion pellach ynglŷn â'r gwelliannau hyn yn Atodiad A.

5. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth. Mae hyn oherwydd bod cleifion yn cael eu darparu ag ymgynghoriad llafar a thaflen gwybodaeth cleifion cyn y driniaeth. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys y risg a buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn derbyn prawf ar ddarn bach o groen³ cyn dechrau'r driniaeth ac yn derbyn canllawiau ôl-ofal yn dilyn triniaeth.

Gofynnid i gleifion ddarparu cydsyniad ysgrifenedig i driniaeth yn ystod yr apwyntiad cyntaf, a gwelsom gofnodion a oedd yn dystiolaeth o hyn. Ni welsom fod llofnod claf yn cael ei gaffael i gydsynio i unrhyw driniaeth mewn unrhyw apwyntiadau dilynol. Dywedwyd wrthym fod cydsyniad llafar yn cael ei gaffael ond nad oedd yn cael ei gofnodi. Gwnaethom argymhell bod cadarnhad o gydsyniad parhaus yn cael ei gaffael a'i gofnodi cyn pob triniaeth.

Gwelsom y gofynnid i gleifion gwblhau ffurflenni hanes meddygol yn ystod yr apwyntiad cyntaf. Roedd diweddariadau neu newidiadau'n cael eu gwirio ar lafar mewn unrhyw apwyntiadau dilynol. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gofnodi canlyniad unrhyw drafodaeth â chleifion ynglŷn â newidiadau i'w hanes meddygol cyn pob triniaeth. Cytunodd rheolwr y practis i roi'r broses hon ar waith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn caffael a chofnodi cydsyniad parhaus cleifion a hanes meddygol wedi'i ddiweddarau yn ystod pob triniaeth.

Roedd gan Aroma Holistic Health and Beauty gofrestr driniaeth i gofnodi a chadw gwybodaeth am gleifion. Roedd y gwasanaeth yn cadw cofnodion mewn cofnodion cleifion unigol a chofrestr driniaeth ar wahân. O fewn y cofnodion cleifion unigol, gwelsom fod gwybodaeth briodol yn cael ei chofnodi. Gwnaethom argymhell y gallai'r wybodaeth a gofnodwyd yn y gofrestr driniaeth gael ei gwella i gynnwys y rhan a

³ Prawf i ddarganfod unrhyw adwaith andwyol i driniaeth arfaethedig.

gafodd ei thrin, llofnod sy'n awdurdodi'r driniaeth, a manylion unrhyw effeithiau niweidiol yn dilyn y driniaeth. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hyn.

Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)

Roedd dogfen canllaw i gleifion ar gael ond roedd angen ei diweddarau fel ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau, gan gynnwys y canlynol:

- Manylion ynglŷn â sut y gall cleifion gael mynediad at adroddiad arolygu diweddaraf AGIC
- Manylion cyswllt llawn AGIC
- Crynodeb o adborth gan gleifion ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir a'r camau a gymerwyd gan y darparwr o ganlyniad i'r adborth hwnnw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau

Gwelsom fod datganiad o ddiben ar gael, ond roedd angen ei ddiweddarau er mwyn iddo gydymffurfio â'r rheoliadau, gan gynnwys:

- Cwblhau manylion y rheolwr a'r darparwr cofrestredig
- Manylion pob gweithredwr laser gan gynnwys cymwysterau
- Y trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau'r cleifion am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben i gydymffurfio â'r rheoliadau.

Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi ei ddiweddarau at AGIC.

Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r gwasanaeth ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael safbwyntiau cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd 12 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn cytuno'n gryf â datganiadau yn nodi bod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Heb eithriad, roedd y cleifion yn cytuno'n gryf bod staff yn gwrtais, yn ofalgar, yn gwrando, ac yn darparu digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth lyfr sylwadau yn yr ardal aros gan alluogi cleifion i ddarparu adborth ad hoc ynghylch y gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom hefyd fod blwch awgrymiadau ar gyfer cleifion i wneud awgrymiadau i'r gwasanaeth. Dywedwyd wrthym nad oes gan y gwasanaeth system am gasglu adborth cleifion ar sail fwy ffurfiol. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried gweithredu proses er mwyn caniatáu i gleifion roi adborth yn flynyddol. Dylid dadansoddi unrhyw adborth a ddarperir gan y rheolwr cofrestredig a dylid rhannu'r canlyniadau gyda chleifion.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)

Roedd pob gweithredwr laser wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser, a gwelwyd tystysgrifau i gadarnhau hyn. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob gweithredwr laser wedi derbyn hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁴ o fewn y tair blynedd diwethaf.

Gwelsom fod gan Aroma Holistic Health and Beauty gontract gydag ymgynghorydd diogelu rhag laserau a gwelsom ddogfennau i ddangos bod yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau wedi ymweld â'r gwasanaeth yn flynyddol ers ei gofrestrriad. Gwelsom fod yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau wedi adolygu'r rheolau lleol a oedd yn manylu gweithrediad diogel y peiriant laser ac wedi gwneud asesiad risg amgylcheddol.

Rhodddwyd arwydd y tu allan i'r drws cyn unrhyw driniaeth i nodi pryd roedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio, er mwyn atal mynediad i'r ystafell heb awdurdod pan oedd y peiriant yn gweithredu a hyrwyddo diogelwch.

Dywedwyd wrthym gan y rheolwr cofrestredig fod y peiriant laser yn cael ei ddiffodd pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio, ac mae'r allwedd i'n cael eu tynnu a'u cadw'n ddiogel. Roedd hi'n ofynnol i staff a oedd yn defnyddio'r peiriant laser gofnodi pan oedd yr allwedd yn cael ei chymryd a'i dychwelyd er mwyn sicrhau bod yr allwedd yn ddiogel bob amser.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr y peiriant laser. O'i archwilio, roedd y cyfarpar diogelu llygaid i'w weld mewn cyflwr addas. Dywedwyd wrthym y byddai ymarferwyr yn defnyddio dull amgen o amddiffyn eu llygaid yn ystod triniaeth ar adegau, a gafodd ei gynghori gan wneuthurwr y peiriant. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i gaffael sicrwydd o arbenigwr perthnasol ym maes laser neu olau pwls dwys o ran diogelwch yr arfer hwn. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Gwelsom waith papur i gadarnhau bod y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu a'i raddnodi yn ystod y 12 mis diwethaf, i helpu sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

⁴ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys mewn modd diogel.

Roedd protocolau meddygol ar waith ar gyfer y peiriant laser a oedd yn cael ei ddefnyddio a luniwyd gan y gwneuthurwr; fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi eu llofnodi gan ymarferydd meddygol arbenigol. Gwelsom fod yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau wedi gwneud y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o'r gofyniad hwn yn ystod yr ymweliad blynyddol ym mis Chwefror 2016. Dywedwyd wrthym gan y rheolwr cofrestredig nad oedd wedi gallu cael cadarnhad gan y gwneuthurwr a oedd wedi ysgrifennu'r protocolau. Gwnaethom argymhell bod angen cadarnhad yr awdur o'r protocolau triniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y protocolau triniaeth yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan ymarferydd meddygol arbenigol priodol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed (Safon 11)

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 16 mlwydd oed yn unig.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi diogelwch ar gyfer staff i'w gyfeirio ato mewn achos o bryder diogelwch. Gwelsom fod gan y polisi ddiffyg gwybodaeth fanwl ynghylch y broses i'w dilyn mewn achos o bryder diogelu. Gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig y dylid diweddarau'r polisi i ddarparu manylion pellach i staff ynghylch y camau i'w cymryd ac i gynnwys y manylion cyswllt perthnasol ar gyfer timau diogelu'r awdurdod lleol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i ddiweddarau'r polisi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid diweddarau'r polisi diogelu i ddarparu canllawiau eglur i staff eu dilyn mewn achos o bryder diogelu.

Dywedwyd wrthym nad oedd hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a diogelu plant wedi'i gwblhau gan y rheolwr cofrestredig na'r gweithredwyr laser. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig wneud hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion agored i niwed a diogelu plant. Dylid ystyried hyfforddiant ar gyfer pob gweithredwr laser hefyd. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynychu hyfforddiant ac ystyried hyfforddiant ar gyfer pob gweithredwr laser.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig wneud hyfforddiant priodol mewn amddiffyn oedolion agored i niwed a diogelu plant.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)

Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Roedd gan y gwasanaeth bolisi rheoli heintiau ar waith a oedd yn rhoi manylion ar gyfer amserlenni glanhau

rheolaidd y gwasanaeth a glanhau offer a manau triniaeth rhwng cleifion. Gwnaethom argymhell y gellid gwella'r polisi i gynnig mwy o fanylder o ran y trefniadau ar gyfer rhai gofynion staff (h.y. diffinio amllder newid tywelion rhwng cleifion). Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Roedd contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff clinigol yn ddiogel.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriad diogelwch nwy wedi cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf, i sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel.

Er mwyn sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio, gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom hefyd dystysgrif a oedd yn dangos bod gwiriad o'r gwaith gwifro trydanol wedi cael ei gwblhau o fewn y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Ni chawsom ein sicrhau bod trefniadau diogelwch tân digonol ar waith. Ni welsom dystiolaeth bod diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom fod arwyddion i'r allanfeydd tân, a dywedwyd wrthym ar lafar bod y gwasanaeth yn cynnal driliau tân afreolaidd ond ni chafodd y rhain eu cofnodi. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod staff yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau o ran diogelwch tân bob chwe mis, ond nid oedd hyn yn cael ei gofnodi. Gwelsom fod asesiad risg tân wedi cael ei gynnal fel rhan o'r broses asesu risg gyffredinol; fodd bynnag, nid oedd gan y gwasanaeth asesiad risg tân annibynnol. Roedd diffyg manylder ac roedd yn fyr iawn. Gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig bod angen gwelliannau i'r trefniadau diogelwch tân i gynnwys y canlynol:

- Adolygu mewn ysbeidiau nad ydynt yn fwy na 12 mis y rhagofalon tân, addasrwydd cyfarpar tân, a'r weithdrefn i'w dilyn mewn achos o dân
- Sicrhau bod driliau tân yn cael eu cynnal o fewn ysbeidiau addas a'u cofnodi
- Cynhyrchu asesiad risg diogelwch tân ysgrifenedig wedi'i ddiweddarau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y trefniadau diogelwch tân yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Roedd gan y gwasanaeth becyn cymorth cyntaf ar gael mewn achos o angen; fodd bynnag, cawsom ein hysbysu gan y rheolwr cofrestredig nad oedd gan y gwasanaeth unigolyn a oedd wedi gwneud hyfforddiant mewn cymorth cyntaf. Gwnaethom argymhell i'r rheolwr cofrestredig bod cyngor yn cael ei geisio gan yr

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch⁵ ynghylch yr angen am weithwyr cymorth cyntaf a'r hyfforddiant priodol sydd ei angen. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

⁵ <http://www.hse.gov.uk/firstaid/index.htm>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)

Mae Aroma Holistic Health and Beauty wedi'i berchen arno a'i redeg gan y rheolwr cofrestredig, sy'n gallu darparu triniaethau laser. Mae tri aelod o staff ychwanegol sy'n weithredwyr laser.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisiâu ar waith ac, fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, roedd angen gweithredu a/neu ddiweddarau rhai ohonynt. Dywedwyd wrthym fod y polisiâu'n cael eu diweddarau'n flynyddol, heblaw bod angen i adolygiad gael ei gynnal ynghynt. Cynghorwyd y rheolwr cofrestredig i gynnwys tudalen mynegai yn y ffeil bolisiâu i gynnwys llofnodion staff i ddangos eu bod wedi darllen a deall unrhyw newidiadau i'w polisiâu a'u gweithdrefnau.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)

Roedd polisi cwyno ar gael er mwyn i gleifion lleisio pryder pe bai angen iddynt wneud hynny. Gwelsom fod angen ei ddiweddarau i gynnwys manylion cyswllt AGIC. Gwnaethom argymhell bod y polisi'n eglurhau pwy y dylai cleifion gysylltu â nhw pe bai ganddynt bryder am y rheolwr cofrestredig. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diweddarau'r polisi cwyno er mwyn iddo gynnwys manylion cyswllt AGIC.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi cael eu derbyn o ran triniaethau laser, ond disgrifiodd sut y byddent yn cofnodi'r wybodaeth yn ffurfiol mewn achos o dderbyn un. Dywedwyd wrthym nad yw adborth llafar yn cael ei gofnodi fel arfer. Gwnaethom drafod yr angen i gofnodi cwynion ysgrifenedig a llafar yn ffurfiol, os derbynnir rhai, er mwyn gallu rhoi sylw i unrhyw themâu neu broblemau cyffredin a nodir.

Rheoli cofnodion (Safon 20)

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio o fewn yr ystafell driniaeth a bod y drws ar glo pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion wedi cael eu cloi yn ddiogel o fewn yr ystafell driniaeth ar adegau pan oedd cleifion wedi'u gadael yn yr ystafell ar eu pennau eu hunain (h.y. i newid), felly nid oedd cofnodion cleifion yn ddiogel bob amser. Gwnaethom hysbysu'r rheolwr cofrestredig y dylid storio cofnodion cleifion yn ddiogel bob amser. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i gael lle storio diogel ar gyfer pob cofnod claf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel bob amser.

Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)

Gwelsom fod pob gweithredwr peiriant laser wedi derbyn gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na fu angen recriwtio unrhyw aelodau newydd o staff yn ddiweddar, ond disgrifiodd broses recriwtio a oedd yn cynnwys y gwiriadau cyn cyflogaeth priodol.

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau bod yr holl aelodau staff yn derbyn arfarniad blynyddol a bod anghenion hyfforddi'n cael eu nodi o ganlyniad.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwella sicrwydd ansawdd a threfniadau rheoli'r gwasanaeth hwn, yn unol â gofynion y rheoliadau a'r safonau. Roedd yn amlwg hefyd bod angen i'r rheolwr cofrestredig wella'i wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r gofynion hyn.

Mae gweithredu trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu cadarn, ac ymateb prydlon gan y darparwr cofrestredig wrth ddatrys problemau, yn arwyddion pwysig o allu darparwr i redeg ei wasanaeth gyda gofal, cymhwysedd a medr digonol. Mae disgwyl, felly, i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, oherwydd gallai methu â gwneud hynny olygu y bydd AGIC yn cymryd camau am beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid gweithredu systemau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a'r rheoliadau, fel modd o fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer darparu triniaethau laser diogel ac effeithiol i gleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella o ran y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn Aroma Holistic Health and Beauty yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth:

Aroma Holistic Health and Beauty

Dyddiad yr Arolygiad:

1 Tachwedd 2016

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
Tudalen 6	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn caffael a chofnodi cydsyniad parhaus cleifion a hanes meddygol wedi'i ddiweddarau yn ystod pob triniaeth.	Rheoliad 9 Safon 9			
Tudalen 7	Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau.	Rheoliad 7 Safon 18			

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 7	Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau. Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi ei ddiweddarau at AGIC.	Rheoliad 6, Atodlen 1			
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
Tudalen 9	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau triniaeth priodol yn cael eu cytuno arnynt a'u harwyddo gan ymarferydd meddygol arbenigol priodol.	Rheoliad 45			
Tudalen 9	Dylid diweddarau'r polisi diogelu i ddarparu canllawiau eglur i staff eu dilyn mewn achos o bryder diogelu.	Rheoliad 16 Safon 11			
	Dylai'r rheolwr cofrestredig wneud	Rheoliad 16			

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 9	hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion agored i niwed a diogelu plant.	Safon 11			
Tudalen 10	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y trefniadau diogelwch tân yn cydymffurfio â'r rheoliadau.	Rheoliad 26 (4) Safon 22			
Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth					
Tudalen 11	Rhaid diweddarau'r polisi cwyno er mwyn iddo gynnwys manylion cyswllt AGIC.	Rheoliad 24			
Tudalen 12	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel bob amser.	Rheoliad 23 Safon 20			

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 12	Rhaid gweithredu systemau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a'r rheoliadau, fel modd o fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer darparu triniaethau laser diogel ac effeithiol i gleifion.	Rheoliad 19 Safon 1			

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad:

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth:

Aroma Holistic Health and Beauty

Dyddiad yr Arolygiad:

1 Tachwedd 2016

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
Tudalen 6	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn caffael a chofnodi cydsyniad parhaus cleifion a hanes meddygol wedi'i ddiweddarau yn ystod pob triniaeth.	Rheoliad 9 Safon 9	Diwygiwyd y ffurflenni cyfredol ac mae'r ffurflenni bellach yn cynnwys cydsyniad parhaus a hanes meddygol wedi'i ddiweddarau ar gyfer pob triniaeth.	Amanda Taylor Heyward	Cwblhawyd 1 Rhagfyr 2016
Tudalen 7	Rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 7 Safon 18	Mae hyn wrthi'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Byddwn yn cysylltu â Matthew Ager i ofyn am wybodaeth ynghylch y	Amanda Taylor Heyward	Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			rheoliadau perthnasol a sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith wedi hynny.		erbyn 1 Mawrth 2017.
Tudalen 7	<p>Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau.</p> <p>Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi ei ddiweddarau at AGIC.</p>	Rheoliad 6, Atodlen 1	<p>Bydd y rheoliadau gofynnol yn cael eu hychwanegu at y datganiad o ddiben.</p> <p>Bydd hwn yn cael ei anfon at AGIC unwaith y'i cwblheir.</p>	Amanda Taylor Heyward	<p>Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn</p> <p>1 Mawrth 2017.</p>
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
Tudalen 9	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y protocolau triniaeth yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan ymarferydd meddygol arbenigol	Rheoliad 45	Anfonwyd copi o e-bost at AGIC yn cadarnhau bod protocolau'n cael eu cynnal gan ymarferydd meddygol priodol.	Amanda Taylor Heyward	Fe'i hanfonwyd at AGIC dros e-bost.

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	priodol.				24 Tachwedd 2016
Tudalen 9	Dylid diweddarau'r polisi diogelu i ddarparu canllawiau eglur i staff i'w dilyn mewn achos o bryder diogelu.	Rheoliad 16 Safon 11	Rydym wrthi'n cysylltu â'r awdurdod perthnasol ar hyn o bryd i gael rhagor o wybodaeth i'n galluogi ni i ddiweddarau'r polisi yn briodol.	Amanda Taylor Heyward	Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn 1 Mawrth 2017.
Tudalen 9	Dylai'r rheolwr cofrestredig wneud hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion agored i niwed a diogelu plant.	Rheoliad 16 Safon 11	Bydd y rheolwr cofrestredig yn ymgymryd â chwrs ar-lein er mwyn derbyn yr hyfforddiant priodol.	Amanda Taylor Heyward	Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn 1 Mawrth 2017.
Tudalen 10	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y trefniadau diogelwch tân yn cydymffurfio â'r rheoliadau.	Rheoliad 26 (4) Safon 22	Mae hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Rydym yn trafod â chwmni tân annibynnol ar hyn o bryd ac wrthi'n ceisio sicrhau cydymffurfedd â'r holl reoliadau.	Amanda Taylor Heyward	Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn 1 Mawrth 2017.

Rhif y Dudalen	Yr Hyn y Mae Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
Tudalen 11	Rhaid diweddarau'r polisi cwyno er mwyn iddo gynnwys manylion cyswllt AGIC.	Rheoliad 24	Cwblhawyd	Amanda Taylor Heyward	1 Rhagfyr 2016
Tudalen 12	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel bob amser.	Rheoliad 23 Safon 20	Mae cofnodion cleifion wedi'u rhoi o'r neilltu mewn cwpwrdd. Rydym yn aros i saer cloeon osod system i gloi'r cwpwrdd.	Amanda Taylor Heyward	Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn 1 Mawrth 2017.
Tudalen 12	Rhaid gweithredu systemau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a'r rheoliadau, fel modd o fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer darparu triniaethau laser diogel ac effeithiol i gleifion.	Rheoliad 19 Safon 1	Mae hyn wrthi'n cael ei fodloni ar hyn o bryd. Rydym mewn trafodaethau â'r corff llywodraethu perthnasol a byddwn yn gwneud gwaith diweddarau fel y bo'r angen.	Amanda Taylor Heyward	Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn 1 Mawrth 2017.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Donna Ovenstone

Teitl: Rheolwr Iechyd a Diogelwch

Dyddiad: 8 Rhagfyr 2016